Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 9 Hydref 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(154)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**3 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)**

NDM5323 William Graham (Dwyrain De Cymru)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod gwerth cyfartal addysg alwedigaethol ac academaidd;

2. Yn credu bod economi ffyniannus yn cael budd o fyfyrwyr â sgiliau cynhwysfawr; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori â rhanddeiliaid a gweithio gyda hwy i gynllunio cwricwlwm galwedigaethol sy'n annog cydraddoldeb ag addysg academaidd yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi bod Llywodraeth Glymblaid y DU wedi creu 1.2 miliwn o brentisiaethau yn Lloegr ers 2010, tra bo nifer y bobl ar brentisiaethau yng Nghymru wedi gostwng bron i 30% rhwng 2006 a 2012.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu cytundeb cyllideb Plaid Cymru i greu dros 5,500 o brentisiaethau ac, yn benodol, dros 2,500 o brentisiaethau uwch.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 3, dileu 'cwricwlwm galwedigaethol sy'n annog cydraddoldeb' ac yn lle hynny, rhoi:

'strategaeth sgiliau sy'n annog cydraddoldeb o ran parch a chyfle'

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar ffyrdd o wella mynediad at brentisiaethau a goresgyn y rhwystrau ymarferol a chanfyddiadol sy'n atal pobl ifanc rhag chwilio am raglen brentisiaeth a gwneud cais amdani yng Nghymru.

**4 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

**NDM5324 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn condemnio bwriad Llywodraeth y DU i breifateiddio'r Post Brenhinol;

2. Yn cydnabod bod preifateiddio yn agor y drws i fygythiadau i wasanaethau post

yng Nghymru wledig a threfol yn y dyfodol;

3. Yn nodi pwysigrwydd y Post Brenhinol i Rwydwaith Swyddfa'r Post;

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar bwysigrwydd gwasanaethau post sy'n atebol i'r cyhoedd i economi Cymru ac i gymunedau Cymru; a

b) ystyried cynnig Plaid Cymru ar gyfer datganoli gwasanaethau post er mwyn diogelu gwasanaeth cyffredinol a fforddiadwy.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn**:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1) Yn nodi bwriad Llywodraeth y DU i breifateiddio'r Post Brenhinol.

2) Yn cydnabod:

a) y bydd preifateiddio yn diogelu'r gwasanaeth cyffredinol, yn galluogi'r Post Brenhinol i gasglu arian yn yr un modd â'i gystadleuwyr, ac yn rhoi cyfranddaliadau am ddim i'r 150,000 o bobl sy'n gweithio i'r Post Brenhinol; a

b) y bydd gan y Post Brenhinol wedi'i breifateiddio gyfrifoldeb cyfreithiol o hyd i ddanfon i bob cyfeiriad, boed mewn ardal drefol neu wledig, o dan ofynion sylfaenol y Gwasanaeth Cyffredinol.

3) Yn cydnabod pa mor bwysig yw'r Post Brenhinol i rwydwaith Swyddfa'r Post, nad yw Swyddfa'r Post ar werth, ac na fydd cynllun i gau Swyddfeydd Post o dan Lywodraeth bresennol y DU.

4) Yn gresynu bod 7,000 o Swyddfeydd Post wedi cael eu cau o dan Lywodraeth Lafur ddiwethaf y DU.

5) Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU ar ei rhaglen £1.34 biliwn i gynnal rhwydwaith sy'n cynnwys o leiaf 11,500 o ganghennau Swyddfa'r Post ledled y DU.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu "Yn condemnio" a rhoi "Yn nodi" yn ei le.

**Gwelliant 3 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn rhannu pryderon yr undebau llafur ynghylch y bygythiad posibl i weithlu'r Post Brenhinol yng Nghymru;

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 4 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn trosglwyddo rhwymedigaethau hanesyddol o oddeutu £37.5 biliwn o Gynllun Pensiwn y Post Brenhinol i Gynllun Pensiwn Statudol newydd y Post Brenhinol.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i wasanaeth post cyffredinol, chwe diwrnod yr wythnos, a ddiogelir gan y gyfraith yn Neddf Gwasanaethau Post 2011.

Mae Deddf Gwasanaethau Post 2011 ar gael drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2011/5/contents

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 6 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 3:

'ac nad yw'r bwriad i breifateiddio yn cynnwys Swyddfa'r Post.'

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 4 newydd, ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi ymdrechion niferus y Blaid Lafur i breifateiddio'r Post Brenhinol hyd at 2009 a'r rhaglen i gau Swyddfeydd Post, lle cafodd 216 o swyddfeydd post eu cau yng Nghymru o dan y Blaid Lafur rhwng mis Hydref 2007 a mis Ionawr 2009;

**Gwelliant 8 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 4 newydd, ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu'r ffaith nad oes unrhyw swyddfeydd post wedi cau ers 2010 o ganlyniad i bolisi Llywodraeth Glymblaid y DU.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 9 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 9 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu is-bwynt 4b.

*[Os derbynnir gwelliant 1 neu cynigir gwelliant 9, bydd gwelliant 10 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 10 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu is-bwynt 4(b).

**Cyfnod Pleidleisio**

**5 Dadl Fer (30 munud)**

NDM5320 Eluned Parrott (Canol De Cymru): Dewisiadau Cadarnhaol – rhoi'r sgiliau a'r profiad i bobl ifanc ddatblygu gyrfa.

**6 Dadl Fer – Ail-drefnwyd ers 2 Hydref 2013 (30 munud)**

NDM5322 Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Gwasanaethau Bws Gwledig yng Nghymru – Ar y Ffordd i Nunlle

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 15 Hydref 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 2 Hydref 2013 i'w hateb ar 9 Hydref 2013

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

1. **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**: Pa gynnydd sydd wedi'i wneud yng Nghymru o ran mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd? OAQ(4)0056(NRF)

2. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i hybu bwyd iach a gynhyrchir yn lleol? OAQ(4)0059(NRF)

3. **Russell George (Sir Drefaldwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau ynni dŵr yng Nghymru? OAQ(4)0058(NRF)

4. **William Graham (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran mynd i'r afael â chlefyd Ramorum mewn coed llarwydd yng Nghymru? OAQ(4)0055(NRF)

5. **Lynne Neagle (Torfaen)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Glastir? OAQ(4)0060(NRF) **TYNNWYD YN ÔL**

6. **Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo ffermwyr i leihau biwrocratiaeth? OAQ(4)0051(NRF)

7. **Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion i wella effeithlonrwydd ynni? OAQ(4)0065(NRF)

**8. Keith Davies (Llanelli):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cael ynglŷn â nwyeiddio glo tanddaearol yn Llanelli a'r ardal gyfagos? OAQ(4)0062(NRF)

**9. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei asesiad o effeithiau amgylcheddol echdynnu nwy drwy ddulliau anghonfensiynol? OAQ(4)0052(NRF)

**10. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran sefydlu adran gyfunol ar bolisïau morol a physgodfeydd? OAQ(4)0053(NRF)W

**11. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu ers ei sefydlu ym mis Ebrill? OAQ(4)064(NRF)

**12. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella lles anifeiliaid yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0054(NRF)

**13. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cymorth Llywodraeth Cymru i gynorthwyo effeithlonrwydd ynni a lleihau tlodi tanwydd? OAQ(4)0063(NRF)

**14. Elin Jones (Ceredigion):** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran darparu mwy o amddiffyniad rhag llifogydd mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd y llynedd? OAQ(4)0061(NRF)

**15. Russell George (Sir Drefaldwyn):** Pa asesiadau effaith y mae Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud ar yr effaith y mae datblygiadau ffermydd gwynt ar y tir yn ei chael ar gymunedau lleol yng Nghymru? OAQ(4)0057(NRF)

## Gofyn i'r Gweinidog Tai ac Adfywio

1. **Alun Ffred Jones (Arfon)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â'r amserlen ar gyfer cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 20 diwygiedig? OAQ(4)0304(HR)W

2. **Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo adfywio trefi yng Nghymru? OAQ(4)0293(HR)

3. **Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu strategaeth tai Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0306(HR)

4. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â digartrefedd? OAQ(4)0301(HR)

5. **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**: Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â digartrefedd? OAQ(4)0300(HR)

6. **Mick Antoniw (Pontypridd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y bydd Cynllun Grant Cyllid Tai Cymru yn helpu pobl yn etholaeth Pontypridd? OAQ(4)0294(HR) **TYNNWYD YN ÔL**

7. **Leighton Andrews (Rhondda)**: Faint o gyllid preifat sydd wedi'i godi yn sgîl trosglwyddiadau gwirfoddol unigol ar raddfa fawr ers 2007? OAQ(4)0296(HR)

8. **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rôl y bydd yr iaith Gymraeg yn ei chwarae yn y Bil Cynllunio newydd? OAQ(4)0297(HR)

9. **William Graham (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r rhai sy'n prynu cartrefi yng Nghymru? OAQ(4)0305(HR)

**10. Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i ysgogi'r farchnad dai yng Nghymru? OAQ(4)0298(HR)

**11. Gwyn Price (Islwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd eiddo llai i aelwydydd y mae newidiadau i fudd-daliadau yn effeithio arnynt? OAQ(4)0302(HR)

**12. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu’r rhai sy’n prynu tŷ am y tro cyntaf yn Nwyrain De Cymru? OAQ(4)0299(HR)

**13. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu nifer y tai y mae awdurdodau lleol yn bwriadu eu hadeiladu yn ystod 2014-2015? OAQ(4)0295(HR)

**14. Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymhwysedd Cynllun Gwarant Morgais Llywodraeth y DU i Gymru? OAQ(4)0307(HR)

**15. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cartrefi newydd yng Nghymru? OAQ(4)0303(HR)**W**